# COFNOD PENDERFYNIADAU CYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU

## 23AIN GORFFENNAF 2015

**Ystafell Bwyllgorau'r Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin**

**1.00pm – 2.00pm**

| YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL | Y PORTFFOLIO |
|---|---|
| **Y Cynghorydd D.M. Jenkins** | **Adnoddau** |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **Mr J. Gravelle** | **Rheolwr y Gwasanaethau Refeniw** |
| **Mr K. Thomas** | **Swyddog Gwasanaethau Democrataidd** |

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

| |
|---|
| Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol. |

Ar ôl ystyried yr adroddiadau am yr eitemau isod, gwnaeth yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y penderfyniadau canlynol:-

| Rhif yr Eitem | Y Pwnc / Penderfyniad |
|---|---|
| 2. | **COFNOD PENDERFYNIADAU – YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU - 28AIN EBRILL A 7FED MAI 2015**<br><br>**PENDERFYNWYD derbyn Cofnodion Penderfyniadau cyfarfodydd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau oedd wedi eu cynnal ar 28ain Ebrill ac 7fed Mai, 2015.** |
| 3. | **ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**<br><br>**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.** |

| Rhif yr Eitem. | Y Pwnc / Penderfyniad |
|---|---|
| 4. | **ARDRETHI ANNOMESTIG – RHYDDHAD YN ÔL DISGRESIWN**<br><br>**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, na fyddid yn cyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**<br><br>**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am hanes ariannol diweddar trethdalwyr unigol a/neu wybodaeth bersonol. Er y byddai datgelu'r adroddiad i'r cyhoedd yn hybu atebolrwydd o ran cyllid cyhoeddus, byddai hefyd yn datgelu gwybodaeth ariannol gyfrinachol. Felly, ar ôl cloriannu'r mater, yr oeddid yn barnu bod y budd i'r cyhoedd o ran cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd.**<br><br>Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried cais am Ryddhad Caledi o dan ddarpariaethau Adran 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 fel y'i diwygiwyd. |
| **Rhif yr Eitem.** | **Y Pwnc / Penderfyniad** |
| | **PENDERFYNWYD gwrthod caniatáu'r cais am beidio â thalu ardrethi oherwydd caledi mewn perthynas â Chyfeirnod Ardrethi 80020258.** |
| 5. | **Y DRETH GYNGOR – GOSTYNGIADAU YN ÔL DISGRESIWN**<br><br>**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, na fyddid yn cyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**<br><br>**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth oedd yn fodd i adnabod unigolion oedd yn agored i dalu'r Dreth Gyngor.**<br><br>**Er y byddai datgelu'r adroddiad i'r cyhoedd yn hybu atebolrwydd o ran cyllid cyhoeddus, byddai hefyd yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol nad oedd yn eiddo i'r cyhoedd ac na fyddai'n cael ei datgelu fel rheol i drydydd partïon. Felly, ar ôl cloriannu'r mater, yr oeddid yn barnu bod y budd i'r cyhoedd o ran cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd.**<br><br>Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y ceisiadau a ddaethai i law am ostyngiadau yn ôl disgresiwn o ran y Dreth Gyngor. Nodwyd bod rheoliadau wedi eu cyflwyno ym mis Ebrill 2004 gan roi pwerau disgresiwn i awdurdodau |

| | |
|---|---|
| | lleol roi gostyngiadau neu leihad a benderfynwyd yn lleol, a bod y rhain yn ychwanegol at y gostyngiadau statudol presennol o ran y Dreth Gyngor.<br>**PENDERFYNWYD:-**<br>**5.1 Oherwydd yr amgylchiadau eithriadol y manylwyd arnynt yn yr adroddiad, hepgor y Dreth Gyngor am y cyfnod rhwng 8fed Ionawr a 3ydd Ebrill 2015 mewn perthynas â Chyfeirnod 60204715.**<br>**5.2 Gohirio ystyried ceisiadau cyfeirnodau 60186927 a 60158589 er mwyn cael rhagor o wybodaeth.**<br>**5.3 Gwrthod y ceisiadau am ostyngiad yn ôl disgresiwn o ran y Dreth Gyngor mewn perthynas â chyfeirnodau 60236879, 50003613 a 60286174.** |

**COFNOD PENDERFYNIADAU CYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU**

**23AIN GORFFENNAF 2015**

| Rhif yr Eitem. | Y Pwnc / Penderfyniad |
|---|---|
| | **5.4 Oherwydd yr amgylchiadau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad, hepgor y Dreth Gyngor mewn perthynas â chais cyfeirnod 60239886 a hynny am flwyddyn ariannol 2014/15 ac am chwe mis cyntaf blwyddyn ariannol 2015/16.** |
| **6.** | **CYFRIFON ANADFERADWY**<br><br>**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, na fyddid yn cyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**<br><br>**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am ddyledion unigolion a/neu wybodaeth bersonol. Er y byddai datgelu'r adroddiad i'r cyhoedd yn hybu atebolrwydd o ran cyllid cyhoeddus, byddai hefyd yn datgelu gwybodaeth ariannol gyfrinachol. Felly, ar ôl cloriannu'r mater, yr oeddid yn barnu bod y budd i'r cyhoedd o ran cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd.**<br><br>Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar Gyfrifon Treth Gyngor a Gordaliadau Budd-dal Tai oedd wedi eu clustnodi'n rhai anadferadwy. Yr oedd yr holl weithdrefnau adennill, lle'r oedd hynny'n briodol, wedi cael eu defnyddio o ran yr achosion hyn, ac nid oedd dim tebygolrwydd y byddai'r symiau'n cael eu talu. Felly bernid ei bod yn briodol dileu'r cyfrifon hyn.<br><br>**PENDERFYNWYD bod y cyfrifon y manylwyd arnynt yn yr adroddiad yn cael eu dileu fel rhai anadferadwy** |

________________________________________

**YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU**

________________________

**Y DYDDIAD**